y dinesydd

Hydref 1999 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 249

# DWYLO AR GYFER EISTEDDFOD CAERDYDD A'R FRO 2001

CAERDYDD a'r Fro

Urdd 2001

Cyhoeddwyd mai'r logo uchod fydd logo Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Caerdydd a'r Fro, a gynhelir rhwng 28 Mai a 2 Mehefin 2001. Dyluniwyd y logo gan gwmni dylunio Elfen yng Nghaerdydd, cwmni a arloeswyd gan Guto Evans a Gwion Prydderch.

Nod y logo, a'i ddwylo gwyrdd trawiadol o syml, yw adlewyrchu'r chwa o egni newydd sy'n sbarduno'r Urdd ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r dwylo'n cyfleu'r elfen gynhwysol sy'n nodweddu Eisteddfod yr Urdd - dyma'r dwylo sy'n creu, yn cymeradwyo ac yn cymryd rhan yn y Brifwyl.

Gan ddefnyddio lliwiau corfforaethol yr Urdd - coch, gwyn a gwyrdd - mae'r logo yn ei fenthyg ei hun i gael ei atgynhyrchu'n hawdd ar bob math o ddefnyddiau a nwyddau. Rhwng y cwbl, y gobaith yw y bydd y dwylo gwyrdd yn rhoi 'help llaw' heb ei ail i hyrwyddo prifwyl ieuenctid mwyaf Ewrop ym mhrifddinas Cymru ar ddechrau mileniwm newydd.

### *Angen rhagor o ddwylo!*

Mae'r pwyllgorau sydd yn trefnu Eisteddfod yr Urdd 2001 wedi eu sefydlu ac yn brysur wrth eu gwaith, ond y mae lle o hyd i eraill ymuno â hwy. Felly os oes gennych ddiddordeb mewn gwasanaethu ar un o'r pwyllgorau canlynol, cysylltwch â Helen Wynne Daniels, Trefnydd yr Eisteddfod, Swyddfa'r Urdd, Canolfan Agenda, Stryd y Parc, Llanelli SA15 3YE (e-bost: helen.urdd@agendatv.co.uk; ffôn: 01554-880890; ffacs: 01554-880891):

*Addysg Gorfforol/Cadw'n Heini/Dawnsio Creadigol; Cae a Phabell; Celf a Dylunio Technoleg; Cerddoriaeth (lleisiol ac offerynnol); Cerdd Dant; Cyhoeddusrwydd; Cyllid; Cymorth Cyntaf; Dawnsio Gwerin/Canu Actol; Drama; Dysgwyr; Gwyddoniaeth; Ieuenctid; Llefaru; Llenyddiaeth (barddoniaeth a rhyddiaith); Llety a Chroeso; Nawdd; Stiwardio/Trafnidiaeth.*

## Llestri Eisteddfod 1938


Mae Eisteddfod yr Urdd yn dod i Gaerdydd. Bydd angen cynhyrchu pethau i gofio am yr ŵyl. Digwyddais fynd i un o farchnadoedd hen bethau'r dref ar sgawt. Yno roedd soser lwch ac arni'r geiriau *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 1938*. Mae arni hefyd arfbais wedi'i chynllunio yn unig swydd ar gyfer yr Eisteddfod sef trosbrint crwn yn dangos gorthwr castell Caerdydd ar ei fwnt gwyrdd a cherrig yr orsedd wrth ei draed. Mae draig o boptu i'r trosbrint mewn trwch o baent orengoch a'r tair pluen rhwng y dreigiau ac uwchben y trosbrint. Mae'r soser ei hun yn grwn, yn reit ddwfn, o liw ifori a dwy hollt yn wynebu ei gilydd i ddal sigaret segur. Cafodd ei gwneud gan Shelley. Heddiw mae'n costio £38 o bunnau.

Penderfynais chwilio hanes y soser lwch. Yn Rhaglen y Dydd Eisteddfod 1938 roedd tudalen lawn yn hysbysebu MARCHNAD RAD CAERDYDD Cyf., Cardiff Bon Marché Ltd, Cyfarwyddwr Goruchwyliol - MORGAN DAVIES. 'Ym mhob cwr o'r ddinas ceir ein ystordai lle y siaredir Cymraeg' medd yr hysbyseb gan restri yr holl nwyddau y gellid eu prynu yno, yn ddillad o bob math, yn llestri, dodrefn, carpedi a llieiniau. Roedd pob serchowgrwydd a chroeso gwir Gymreig yno, ac yn bwysig iawn, y 'GWERTHOEDD UWCHAF - Y PRISIAU ISELAF'. Roedd Mr Davies yn ŵr o Bontardawe yn enedigol a chanddo bedair 'ystordy', sef siop, ar gyrion y ddinas yn y mannau lle roedd ei gwsmeriaid yn byw: yn Nhrelái, Splott, Yr Eglwys Newydd a Cathays. Roedd hefyd yn un o uchel swyddogion yr Eisteddfod. Teimlwn yn siŵr mai dyma'r un a fyddai wedi comisynu'r llestrïyn yn wreiddiol.

Ond wrth imi droi'r dudalen fe welais yr hysbyseb sydd ynghlwm wrth yr erthygl hon sydd yn rhoi pennod ac adnod am y soser lwch. Ar waelod yr hysbyseb yma mae'r geiriau 'Gwahoddir chwi i ymweled a'n Pabell ar Faes yr Eisteddfod, lle y ceir llawer math o bethau defnyddiol mewn China i'ch atgofio am eich ymweliad â Chaerdydd a'r Eisteddfod.' Teg tybio felly mai cwmni Carter's a gomisiynodd y llestri, o dan gyfarwyddyd Morgan Davies. Roedd y darnau yn 'Specially Designed and Hand Enamelled by SHELLEYS, Makers of Fine China.' Does gen i ddim modd o ddarganfod sawl cofrodd a wnaethpwyd ond gallwn feddwl fod y cwpan dwy ddolen â'r ymylon aur sydd yn y llun yn cael ei gyfrif fel y gorau ohonyn nhw. Mae'n rhaid bod y cofroddion hyn wedi cyrraedd Cymru benbaladr ond dyma'r unig un i mi ei gweld hyd yn hyn.

Gwelais ôl-nodyn digon difyr i'r pwt yma yn rhifyn Mehefin un o'r cylchgronau sgleiniog cyfredol. Ar werth: tebot, gwyn, 4 modfedd a hanner o uchder, â'r ysgrifen *A Present from The National Eisteddfod 1898* arno. Eisteddfod Blaenau Ffestiniog oedd un 1898. Mae ar werth yng Ngwynedd am £25.

**Mary Wiliam**



# Y Dinesydd

**Hydref 1999, Rhif 249. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 23 Hydref:**

**Newyddion o'r Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ. (Ffôn: 628754 ) **neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 01222-418270)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........

Cyfeiriad: ..........

.......... Cod Post: ..........

Rhif Ffôn: ..........

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........

Cyfeiriad: ..........


.......... Cod Post: ..........

Rhif Ffôn: ..........

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 11** **Hydref 1999**



**Ar Draws**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Yr Emynyddes mewn cwch gyda thyrfa | (5) |
| 4. | Cesair neu orchudd cwrt Gwilym | (7) |
| 8. | Dyfala'r oll fel petai o ryw blaned arall | (9) |
| 9. | Afon o dywyllwch diddiwedd | (3) |
| 10. | Ai 'drip' yw'r cynrychiolydd? | (7) |
| 12. | Papur mewn Llys Barn | (4) |
| 14. | A oes gan yr aderyn hyn hirach asgell? | (7) |
| 17. | Mul o dras ynfyd | (4) |
| 18. | Dwy afon mewn storm arswydus | (7) |
| 20. | Arglwydd yn cefnu ar groesni ar yn ail | (3) |
| 21. | 'Ni fethodd ___ ___ erioed<br>Â chyrraedd hyd y nef.' (W.) | (5,4) |
| 23. | Yn enwog neu beidio mae angen bwyd | (7) |
| 24. | Gwaedd y Ffrangeg mewn amgylchiadau gwâr | (5) |

**I Lawr**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | '___ ___ ___ y frwydyr<br>Fe geidw'i frodyr gwan' (D.W.) | (5,6,2) |
| 2. | Agorwr cam yn crymu yn lleol | (6) |
| 3. | Diddanwr i'r dyfrwr meddw | (8) |
| 4. | Dysgwyr y Gymraeg yn gytûn | (3) |
| 5. | Trawsffurfiwyd Elin yn fenyw arall | (4) |
| 6. | Siglo hen darian | (6) |
| 7. | '___ ___ ___ ruai, neithiwr<br>Crynai'r dref i'w sail' (Crwys) | (5,2,6) |
| 11. | Gadael mewn grym a doethineb | (5) |
| 13. | Clefyd wna ei dant hi yn bwdr | (8) |
| 15. | Tebyg i fath o sedd a thro yn ei chwt | (6) |
| 16. | Murddun bron a'i adfer yn dilyn y cyntaf | (6) |
| 19. | Sianeli egin i greu tyfiant newydd | (4) |
| 22. | Pysgodyn yn dechrau esgyn o'r gwaelod | (3) |

**Atebion Croesair 10**

**Ar Draws:** 1. Dincod; 8. Chwaer; 9. Clustog; 11. Gwastraff; 12. Cnawd; 15. Draw; 16. Dyn; 17. Reis; 19. Anadl; 21. Dyfnaint; 24. Carafán; 25. Anllad; 26. Gynnau.
**I lawr**: 2. Iolyn; 3. Casllwchwr; 4. Diog; 5. Achosi; 6. Cawr; 7. Praff; 10. Gŵyl y Banc; 12. Cadw; 13. Brynhawn; 14. Isel; 18. Lladd-dy; 20. Drama; 21. Deall; 22. Felly; 23. Tasg.

**Croesair Rhif 10**

Derbyniwyd pymtheg ymgais y tro yma, a thri ar ddeg ohonynt yn gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd Gwenda Hopkins, 55 Three Arches Ave., Llanisien.
Fe fydd tocyn llyfrau ar ei ffordd iddi hi yn fuan.

**Cystadleuaeth Hydref 1999**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 25 Hydref.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

## Calendr y Dinesydd

**Iau, 14 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cyfarfod Diolchgarwch yn Salem, Treganna am 7.30 p.m.
**Gwener, 15 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Charlotte Guest a'r Mabinogion' gan yr Athro Sioned Davies, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Llun, 18 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Laserau mewn Meddygaeth' gan yr Athro Mark Clements (Abertawe) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 19 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais: 'Un o'r Teulu'. Sgwrs gan Beryl Hall, am 7.30 p.m.
**Mercher-Gwener, 20-22 Hydref**
Eglwys y Crwys, Heol Richmond: 'Sgen Ti Docyn?' Theatr y Crwys yn cyflwyno tair drama fer i ddathlu Cwpan Rygbi'r Byd, am 7.30 p.m. Tocynnau: £3.
**Gwener-Sul, 29-31 Hydref**
Cynhadledd Llyfrau Plant Flynyddol Cyngor Llyfrau Cymru yng Ngwesty'r 'Cardiff Bay', Caerdydd. Manylion pellach: 01970-624151.
**Llun, 1 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Sgwrs gan Gwenda Morgan am Fudiad y Cynhalwyr, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 2 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: Siân Wyn Thomas a'i ffrindiau yn diddanu, am 7.30 p.m.
**Mercher, 3 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Chwarae Ceilys yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen am 7.30 p.m.
**Gwener, 5 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: Noson deyrnged i T. Rowland Hughes yng ngofal y Parch. Huw Ethall, am 7.15 p.m. yn Nhabernacl, Yr Ais.
**Sul, 7 Tachwedd**
Eglwys y Crwys, Heol Richmond: Cymanfa Ganu ar thema 'Heddwch' am 2.30 p.m. Arweinydd: Robert Nichols. Organydd: Dr Dewi M. Lewis. Côr Plant: Ysgol Gynradd Pen-cae. Mynediad am ddim; casgliad tuag at elusen y Groes Goch.
**Llun, 8 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'O Ystrad Fflur i Gaerdydd'. Sgwrs gan Beti Williams, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Mercher, 10 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Mr David Evans (Banc), yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Iau, 11 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Cedars, Llanisien (dros y ffordd i Westy'r Phoenix) am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Sgwrs gan Eirian Thomas, Swyddog Addysg Adran yr Amgylchedd, Dinas Caerdydd. Manylion pellach: Valmai Evans (314517).
**Iau, 11 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Myfyrdod ar y Mileniwm' gan y Parch. Ddr T. J. Davies, yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs am Batagonia gan Gwilym Roberts, yn neuadd Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: 'Penny Readings', wedi'u trefnu gan Carys Burston a Bryn Evans, am 7.30 p.m.
**Llun, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Gwyddoniaeth Codi Adeiladau'. Darlith gan Gerallt Nash (Amgueddfa Werin Cymru) ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 16 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: Noson gyda Hugh a Verina Matthews, am 7.30 p.m.
**Gwener, 19 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llew Brownhill' gan Islwyn Jones, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, 7 p.m.
**Sadwrn, 20 Tachwedd**
Eisteddfod Gadeiriol Flynyddol Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn Neuadd Sefydliad y Gweithwyr, Oakdale yn yr Amgueddfa, am 11.30 a.m. a 5.00 p.m Manylion pellach: 01222-573427/573500.
**Mercher, 24 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan y Parchg Dyrinos Thomas, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Sadwrn, 27 Tachwedd**
Tabernacl, Yr Ais: Ffair Nadolig a Choffi yn y bore o 9.30 tan 12.00

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ.*

## Cydymdeimlwn

- â'r Parch. Haydn Thomas a'i deulu ar farwolaeth ei briod, Mrs Millicent Thomas, wedi blynyddoedd o afiechyd creulon;
- â Gerallt Nash, Tyllgoed, a'r teulu ar farwolaeth ei fam yn Nhyddewi;
- â theulu'r diweddar Ddr W. J. (Jack) Thomas, y cyn-arolygydd ysgolion, a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 14 Medi;
- â theulu'r ddiweddar Joan Kuczys, Parc Victoria, a fu farw'n sydyn tra oedd ar ymweliad â Llundain. Roedd yn cadw siop lyfrau yn Nhreganna.

## Llongyfarchiadau

- i Ysgol Melin Gruffydd ar fod yn un o'r ysgolion sy'n ffurfio Côr Cynradd yr Urdd, côr o 240 o leisiau a ffurfiwyd i ganu gyda Bryn Terfel a Shirley Bassey yn Seremoni Agoriadol Cwpan Rygbi'r Byd yn Stadiwm y Mileniwm. Daw aelodau'r côr o'r corau hynny a fu'n fuddugol yn Eisteddfodau Sir yr Urdd ar draws de Cymru eleni yn y brif gystadleuaeth corau ysgolion cynradd;
- i Gareth Kiff ar gael ei benodi'n Swyddog Datblygu Menter Caerdydd;
- i Geraint Thomas o Ysgol y Wern ar gael ei ddewis i chwarae rhan un o'r plant yn y gyfres 'Ding Dong' ar S4C;
- i Ffion Harries ar ddarlledu ei drama, *Fi Sy'n Magu'r Babi*, ar S4C Digidol yn ddiweddar. Drama ydyw am yr ystod eang o emosiynau sydd ynghlwm wrth ddirprwyo (*surrogacy*);
- i Colin Jackson, gynt o Lanedeyrn, ar ennill medal aur ym mhencampwriaethau'r byd ym Madrid yn y ras 110 metr dros y clwydi. Ef oedd yr unig un o Brydain i ennill medal aur yn y chwaraeon;
- i'r Athro J. D. R. Thomas, Wrecsam, gynt o Ffordd Egremont Caerdydd, ar gael ei ethol yn Gymrawd Anrhydeddus Cymdeithas Gemegol Rwmania am 'ei lu gyfraniadau i addysg uwch ac ymchwil i wyddoniaeth gemegol'. Bu'r Athro Thomas yn ddarlithydd ac yna'n athro yn y Brifysgol yng Nghaerdydd rhwng 1961 a 1993.
- i gyn-Gyfarwyddwr Addysg Caerdydd, Tom Davies, ar gael ei benodi'r gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru. Bu Mr Davies yn brifathro ac yn arolygydd ysgolion yn ystod ei yrfa. Daw o Abergele yn wreiddiol. Daeth i Gaerdydd yn 1994;
- i John Hugh Thomas ar gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cerdd Cerddorfa Polyffonig Caerdydd. Dymunwn yn dda i'r cyn-gyfarwyddwr, Simon Lovell-Jones, yn ei swydd newydd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

## Diolch am Roddion

Diolch yn fawr iawn i Ferched y Wawr Caerdydd, Cymry'r Wenallt, Cymrodorion Caerdydd, Cymrodorion y Barri, Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd a Chylch Llyfryddol Caerdydd; ynghyd â rhai unigolion, am eu rhoddion hael i'r *Dinesydd* yn ddiweddar. Heb eich cymorth chwi a'ch bath, ni fyddai modd inni barhau i gyhoeddi'r *Dinesydd*. Anfoner pob rhodd, yn fawr a mân, at ein Trysorydd: Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## Merched ar y Blaen

Gant a hanner o flynyddoedd yn ôl roedd gan fenyw yng Nghaerdydd ddisgwyliad einioes o 40 mlynedd, a 43 blynedd gan ddyn. Erbyn heddiw, meddai Hybu Iechyd Cymru, mae menywod Caerdydd yn mwynhau dwywaith hynny, gyda disgwyliad einioes o 78 o flynyddoedd, tra bo dyn yn gallu disgwyl byw hyd at tua 70 o flynyddoedd.

## Elias ar Dri Chopa



Dyma lun o Mari Wyn Elias Jones, cyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf. Erbyn hyn y mae wedi dechrau ar yrfa gyda'r heddlu yn West Midlands ac yn gweithio yn King's Heath, Birmingham. Yn ystod ei hyfforddiant yn Cwyntry (*Coventry*), aeth hi, ynghyd ag un ar bymtheg o'r heddlu, i ymgymryd â sialens y Tri Chopa. Roedd yn rhaid cerdded i fyny ac i lawr mynyddoedd uchaf Cymru, Lloegr a'r Alban o fewn 24 awr, sef cyfanswm o 26 milltir. Dechrau o Birmingham bnawn Gwener, a theithio mewn bws mini at droed yr Wyddfa. Ar ôl ei dringo, mynd ymlaen i Scafell Pike gan gysgu ychydig ar y bws wrth fynd. Yn ystod y nos Wener, dringo Scafell Pike. Ymlaen wedyn i'r Alban a dringo Ben Nevis bnawn Sadwrn. Aros y nos mewn hostel ac yna yn ôl i Birmingham ddydd Sul. Hi oedd yr unig ferch i orffen y sialens. Roedd y daith wedi'i threfnu i godi arian i fudiad 'Sense'. Diolch i bawb a'i noddodd.

## Cadeiryddion newydd

Cadeirydd newydd y Blaid Geidwadol yng Nghymru yw **Henri Lloyd Davies**, cyfarwyddwr cwmni 52 oed o Landeilo, gynt o Gaerdydd. Ar un adeg bu'n aelod o Blaid Cymru a safodd yn enw'r blaid honno yn ardal Rhiwbina am sedd ar Gyngor Caerdydd yn y saithdegau. Bu ei dad yn feddyg teulu yn ardal Rhiwbina am lawer o flynyddoedd.

Cadeirydd newydd y cwmni datblygu economaidd, Menter a Busnes, yw **Eirlys Pritchard Jones**, Llanbedr-y-fro, cyn-brifathrawes gyntaf Ysgol Gyfun y Cymer, Rhondda. Daw'n wreiddiol o Donpentre ac roedd yn un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Ynys-wen, Treorci.

## O Langwyryfon i Lanelwedd

Am y tro cyntaf yn hanes Sioe Amaethyddol Cymru, Llanelwedd, fe'i hagorwyd eleni gan wraig, sef Teleri Bevan, y ddarlledwraig a'r awdur a chyn-bennaeth rhaglenni BBC Wales. Graddiodd ym Mhrifysgol Cymru Bangor ac mae ei chysylltiadau â ffermio'n mynd yn ôl i'w phlentyndod yn Llangwyryfon. Roedd ei thad, Richard Phillips, yn enwog fel arloeswr ym myd amaethyddiaeth. Dechreuodd ar ei gyrfa'n drefnydd Undeb Ffermwyr Ifainc yng Nghaergrawnt a'r Isle of Ely cyn ymuno â staff y BBC yng Nghaerdydd. Mae gwerthu da ar ei hunangofiant a gyhoeddwyd beth amser yn ôl.

## Ysgoloriaethau ar gyfer cyrsiau dwys

Yn ddiweddar cyhoeddodd Banc y Midland (gynt) gynllun elusennol fydd yn cynnig ysgoloriaethau gwerth £6,000 dros gyfnod o dair blynedd i gynorthwyo pobl sydd heb fodd digonol i fynychu cyrsiau dwys Cymraeg. Gelwir y cynllun hwn yn Ysgoloriaethau HSBC (*Hong Kong and Shanghai Banking Corporation*). Cynhelir cyrsiau dwys preswyl gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Prifysgol Caerdydd ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr bob haf er 1975. Bydd yr ysgoloriaethau hyn yn hwb sylweddol i anfon mwy o ddysgwyr ar y cyrsiau hyn.

## Canolfan Celfyddydau Newydd

Agorwyd Canolfan Celfyddydau Gweledol newydd i Gymru yn yr Hen Lyfrgell ar yr Ais yng nghanol Caerdydd ym mis Medi. O ofyn amdanynt mae taflenni Cymraeg ar gael sy'n rhoi manylion am eu harddangosfeydd. Am ragor o fanylion, ffoniwch 01222-388922.

## Ffarwelio

Ar ôl blynyddoedd lawer o fyw yng Nghaerdydd ffarweliwn â **Cyril a Cath Jones**, Llys-faen, sy'n symud i fyw i Bentrefelin ger Cricieth. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cylch newydd.

Ar ôl ugain mlynedd yn brifathro Ysgol Uwchradd Teilo Sant, mae **Teifion Griffiths** wedi ymddeol. Ymddeoliad hapus iddo.

Dymunwn yn dda i **Helen Davies** wrth iddi adael staff Athrofa'r Brifysgol yng Nghyncoed, a symud i ddarlithio yn Athrofa Abertawe.

Ar ôl bod yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Gladstone am 21 mlynedd, mae **Owen John Thomas** wedi mynd yn aelod dros Blaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol. Brodor o Gaerdydd yw Owen John Thomas a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Parc y Rhath ac Ysgol Uwchradd Howardian. Ef oedd sylfaenydd Clwb Ifor Bach ac y mae'n flaenllaw ym mywyd Cymraeg Caerdydd ers blynyddoedd.

Mae **Alan Parsons** wedi ymddeol ar ôl 28 mlynedd yn Warden Neuadd Meirionnydd yn yr Ysgol Feddygol. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Cathays, a bu'n dysgu Cymraeg yng Ngholeg Illtud Sant ac yng Ngholeg Llanymddyfri, cyn ei benodi'n Warden yn yr Ysgol Feddygol yn 1971.

## Yn Galw Cerddwyr

Os ydych yn gerddwr brwd, hwyrach y bydd cylchgrawn i gerddwyr a gyhoeddir yng Nghaerdydd o ddiddordeb i chi. Teitl y cylchgrawn yw *Walking Wales: Cerdded Cymru*. Mae'n ddwyflwydd oed erbyn hyn, ac wedi'i anelu at y rheini sydd am gerdded yng nghefn gwlad Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r cyhoeddwyr, Gwlad Cyf., Blwch Post 644, Caerdydd CF10 4XW (01222-256195). Cyfeiriad eu safle ar y We yw http.// www.gwlad.co.uk.

## Cegin hen-newydd yn y Rhath

Yn rhaglen gyntaf y gyfres newydd o 'Gwaith Cartref', a ddangoswyd ar S4C nos Fawrth, 28 Medi, bu Carys Jones a'r wyneb newydd ar y rhaglen, Anthony John, yn trawsnewid cegin ddiflas Stacey Blythe o'r Rhath gan ddefnyddio hen ddefnyddiau a phaent ac ati sy'n garedig i'r amgylchedd. Ymhlith yr eitemau eraill o Gaerdydd yn ystod y gyfres y mae creu murlun i feddygfa yn King's Road ac ystafell gerdd i athrawes gerdd yn Llandaf.

## Annwyl Dinesydd



Rwy'n danfon llun fy chwaer, Caryl Pollard, atoch gan iddi ddod yn drydydd ar y llefaru unigol o'r Ysgrythur dan 16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn sir Fôn eleni. Hi a enillodd y gystadleuaeth honno y llynedd ym Mhen-y-bont hefyd. (Mae Caryl yn Ysgol Plasmawr.)

Da iawn fy chwaer fach!!

**Nerys Pollard**
Heol Isaf, Radur

## Y DJ a'r BBC

Ymhen 20 niwrnod ar ôl gorffen ei arholiadau Lefel A, ymunodd Huw Stephens (mab Ruth a Meic Stephens, Yr Eglwys Newydd) â'r BBC, i gydgyflwyno'r rhaglen 'Session in Wales' ar nos Iau ar Radio 1. Yn 18 oed, ef yw'r DJ ifancaf erioed, gan guro Noel Edmunds o dair blynedd. Mae Gruff Rhys, prif leisiwr y grŵp Super Furry Animals yn gefnder iddo - felly mae'n amlwg fod canu pop yn y genynnau! A'r graddau a gafodd Huw yn ei arholiadau Lefel A? Wel, ie - BBC! Llongyfarchiadau a phob lwc iddo fel DJ ifancaf Prydain.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## MINNY STREET, CAERDYDD

Croeso cynnes i'r Parchg **Eifion Powell** sydd bellach wedi cychwyn ar ei weinidogaeth yn ein mysg ac yn ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd.

Cafwyd Sul bendithiol ar 19 Medi adeg ein Cyfarfod Blynyddol. Y gennad eleni oedd yr Hybarch **Saunders Davies**, a hyfrydwch oedd cael ei groesawu ef a'i briod, Mrs Cynthia Davies, yn ôl i Gaerdydd ac i Minny Street. Cyn gwrando ar bregeth gwbl amserol yn oedfa'r bore cawsom hefyd y fraint o dystio i fedydd **Caradog Ifan**, mab John a Helen Emaniwel Huws (Llandaf) a brawd Gruffudd Llŷr, gyda'r Parchg Eifion Powell yn gweinyddu. Hyfrydwch o'r mwyaf oedd gweld cynulleidfa luosog gyda chynrychiolaeth o nifer o eglwysi Cymraeg y ddinas yn dod at ei gilydd ar y nos Sul i wrando pregeth bwrpasol arall o enau'r Parchg Saunders Davies.

## BETHEL, RHIWBINA

Cyflwynwyd anrheg i bump o aelodau ifanc yr eglwys sydd newydd ddechrau yn y coleg gan y Gweinidog, y Parchg Evan Morgan. Dymunir pob llwyddiant iddynt ar eu gwahanol gyrsiau.

Mae'r Gweinidog wedi trefnu rhaglen o weithgareddau ar foreau Mawrth am 10.30 a.m. rhwng nawr a'r Nadolig. Cynhelir Astudiaethau Beiblaidd ar y thema 'Dilynwyr Iesu', 12 Hydref, 9, 16 a 30 Tachwedd. Fe gynhelir Boreau Coffi ar 5 Hydref, 2 Tachwedd, a 7 Rhagfyr. Bydd cyfle yn ystod y boreau hynny i sgwrsio a chymdeithasu ac mae croeso cynnes i bawb ddod atom ni.

Fe ddaeth cynrychiolaeth dda o eglwysi eraill y ddinas i Fethel, 9 Medi, i wrando ar Thomas Davies, gohebydd chwaraeon *Y Dinesydd* a chyn-aelod o staff Adran Chwaraeon y BBC, yn siarad am Gristnogion a Chwaraeon. Llywydd y cyfarfod oedd Mr Eifion Hopwood.

## EGLWYS EBENESER, CAERDYDD

**Bedydd**: Ddydd Sul, 12 Medi 1999 bedyddiwyd **Ifan Adam**, mab Miriam ac Aled Hopkins a brawd bach Cian Adam yn Eglwys Ebeneser. Ein dymuniadau gorau i'r teulu oll.

**Priodasau**: Bu i dri o aelodau ifanc yr eglwys briodi dros yr haf. Ar 22 Mai priododd Gareth Carwyn Jones ag Anwen Jones yng nghapel Bethel, Cwmpedol, Ffarmers. Yna bu dwy briodas y mis diwethaf - ar 4 Medi bu priodas Aled Lewis â Maria Barnett yn Eglwys Gatholig Biwmares ac ar 25 Medi priododd Nia Angharad Roberts â David Sutton yma yn Eglwys Ebeneser. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gwresog i'r tri phâr ifanc hyn.

**Jesus Christ, Superstar**: Nos Iau, 16 Medi, aeth criw o 25 o bobl ifainc yr eglwys i'r Theatr Newydd, Caerdydd i weld y sioe gerdd *Jesus Christ, Superstar*. Cafwyd amser hwyliog iawn a noson i'w chofio.

**Cwpan Rygbi'r Byd**: Bob diwrnod pan fydd gêm yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd yn cael ei chwarae yng Nghaerdydd byddwn yn darparu coffi yn y festri ac yn estyn croeso i'r capel i ymwelwyr o bob rhan o'r byd. Eisoes fe baratowyd taflen mewn nifer helaeth o wahanol ieithoedd yn egluro ein cenadwri fel eglwys Crist yma yng nghanol prifddinas Cymru ac yn rhoi croeso cynnes i'r eglwys ac i Gaerdydd.

## COFIO EURIG EVANS, TABERNACL, CAERDYDD

Ym marwolaeth Eurig, collodd Eglwys y Tabernacl un o'i gweithwyr amlycaf, ac fe gydnabyddwn hynny'n wylaidd ac yn ddiolchgar. Eisteddodd ar Bwyllgor Gweinidogaeth yr Undeb ac fe fynychodd ei chynadleddau'n selog fel un o gynrychiolwyr yr eglwys. Roedd yn adnabod y cynrychiolwyr eraill ac yn uchel ei barch gan bob un. Mwynheuai gwmnïaeth y gweinidogion, ac fe fydd llawer ohonynt yn cofio'r croeso cyfeillgar a chartrefol yn 24 Cefn Carnau Road. Bu'n ffyddlon hefyd i gymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg ac fe ystyriwyd ef yn deilwng o olyniaeth y Gadair eleni. Fe'i nodweddwyd gan foneddigeiddrwydd grasol a theyrngarwch ffyddlon. Yn ei anerchiad o gadair y Gymanfa fe alwodd arnom i wynebu realiti ein cyfnod a'n cyflwr gan bwysleisio pwysigrwydd calonogi'r eglwysi i wasanaethu yr Arglwydd sydd piau'r winllan.

Bydd bwlch enfawr ar ei ôl yn y Tabernacl. Etholwyd ef yn ddiacon a swyddog yn gynnar yn ei hanes, ac fe wasanaethodd fel ysgrifennydd am dymor sylweddol. Rhannodd gyfeillgarwch mynwesol â Raymond Williams ac roedd eu partneriaeth yng ngweinidogaeth yr eglwys yn ddiarhebol. Fy mraint innau oedd derbyn yr un gefnogaeth a chyfeillgarwch ganddo. Sonnir yn aml am 'frodyr yn y weinidogaeth' ac fe allwn ddweud am Eurig ei fod yn frawd annwyl ac agos i'w weinidog, ac i bawb a garai yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd yn ysgrifennydd trylwyr a chydwybodol i'r eglwys, yn athro ysgol Sul yn ei dro, ac yn un o'r selocaf yn y Cwrdd Gweddi.

Bu'n athro yn Rhiwbina ac yn brifathro yn Rhymni, Caerdydd. Roedd yn frwdfrydig fel cricedwr, yn chwaraewr dawnus ac yn wyliwr brwd. Bu'n selog i gymdeithasau Cymraeg y ddinas, ac yn ddiweddar bu'n llywydd Cymrodorion Caerdydd. Darllenai yn gyson ac eang, yn arbennig cofiannau a hunangofiannau. Mwynhâi ei wyliau yng ngwres De Ewrop ac roedd wrth ei fodd gyda'i blant Geraint ac Eleri a'u teuluoedd. Roedd yn hoff o gwmni, ac o bob cwmni, cwmni ei briod a'u gariad cywiraf Beryl. Diolch am a gafwyd yn ei fywyd. Sancteiddier pob coffadwriaeth ohono.

**Denzil Ieuan John**

## CÔR MERCHED CANNA

Festri Capel Salem, Treganna ar nos Lun, 7.30 p.m.
Arweinyddes: Delyth Medi, Llwyncelyn, 13 Pencisely Crescent, Llandaf, Caerdydd CF5 1DS (01222) 254468

Mae tymor arall wedi cychwyn, a'r côr eisoes wrthi'n brysur yn ymarfer yn wythnosol. Bu'n flwyddyn brysur iawn, a'r daith i Gorc, Iwerddon yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc ym mis Mai yn coroni'r holl weithgareddau. Dyna beth oedd enjoio! Roedd cystadlu yn Llangollen ym mis Gorffennaf yn agoriad llygad hefyd.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn paratoi yn ddygn ar gyfer yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghorwen ar 13 Tachwedd, ac mae'r paratoadau yn mynd yn dda. Croeso i unrhyw un ddod draw i Salem ar nos Lun i ymuno â'r côr. Mae yna griw o ferched bywiog a hwyliog, yn amrywio o ran oedran, yn famau, athrawon, meddygon, ysgrifenyddion, cyfryngwyr, swyddogion prawf, ac yn mwynhau canu clasurol, gwerin, cerdd dant, 'swingle'. Dewch draw ac rwy'n siŵr y gwnewch chi fwynhau'n fawr. Cysyllter â Delyth Medi os oes diddordeb (cyfeiriad a rhif ffôn uchod). Edrychwn ymlaen at eich gweld.

# NEWYDDION YR URDD





Rhys Penry Williams (Melin Gruffydd), Aron Ramsey (Caerffili), Jordan Goodwin (Gwaelod-y-garth), Rhys Howells (Pen-y-garth), Joseph West Fitzgerald (Melin Gruffydd), Tomos Clarke (Treganna), Gwion Jones (Treganna), Michael Stephens (Pen-cae), Gethin Stone (Caerffili), Huw Morgan (Pen-y-garth)

## AR Y GWEILL

*Tachwedd*
Bl. 9 a 10
**TRIP I WELD BOYZONE**
Oedran 16 +
**GIG CLWB IFOR BACH**
*Rhagfyr*
Bl. 7 ac 8
**PENWYTHNOS YN STOREY ARMS**

## Twrnament Brentford F. C.

Yn ystod mis Awst, aethpwyd â thim dan 8 oed yr Urdd/Cardiff City i Brentford F.C. i gystadlu mewn twrnament pêl-droed yn erbyn timau proffesiynol Watford, QPR, Bristol City, Peterborough a Brentford. Cafwyd llwyddiant, gyda thîm yr Urdd yn dod yn ail yn eu cystadleuaeth. Dyma lun o'r chwaraewyr gyda'u hyfforddwr Gary Lewis.

## Trip 4 diwrnod i Gaernarfon 16+



Wedi arholiadau TGAU, trefnwyd trip ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 ysgolion Glantaf a Chwm Rhymni ar y cyd i Gaernarfon. Yn ystod y trip, gwnaethom ymweld â'r Wyddfa, Beddgelert, prynhawn yn ymlacio ar y traeth ym Mhorthmadog a diwrnod yn Nulyn, Iwerddon. Cafwyd ymateb gwych i'r trip gyda dros 30 o ddisgyblion yn mynychu. Hoffai'r Urdd ddiolch i griw Glantaf am eu hymddygiad aeddfed a chymdeithasol yn ystod y trip.



Ar y bws yn Nulyn

## Eisteddfod Sain Ffagan

Cofiwch am ail eisteddfod gadeiriol flynyddol yr Amgueddfa Werin ar 20 Tachwedd. Am raglen (yn rhad ac am ddim) sy'n rhoi manylion am yr holl gystadlaethau, anfonwch at Meinwen Ruddock, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB (Ffôn: 01222-573500).

## Songs of Praise

Darlledir 'Songs of Praise' arbennig o Stadiwm y Mileniwm ar 2 Ionawr 2000. Pe carech fod yno, gallech gael tocyn trwy anfon siec am £3, ynghyd ag amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio, at 'Songs of Praise', P.O. Box 25787, Llundain SW20 8WR. Cyflwynir yr emynau gan Pam Rhodes, Don MacLean a Roy Noble.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## Hannercanmlwyddiant Addysg Gymraeg

Bwriedwn gynnwys yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd* nifer o eitemau a fydd yn edrych yn ôl dros rai o uchafbwyntiau'r dathlu eleni. Os oes gan rai o'n darllenwyr luniau pwrpasol ar gyfer eu hatgynhyrchu - o Daith y Fflam, dyweder, neu o Ginio'r Dathlu neu'r Ram Jam ym Mharc Victoria - byddem yn ddiolchgar pe baent yn cysylltu â ni rhag blaen.

# YSGOL PLASMAWR

## Walkathon

Ddydd Sul, 19 Medi, aeth criw o ddisgyblion Plasmawr i gerdded er mwyn codi arian i elusen Sefydliad Prydeinig y Galon. Dyma adroddiad Lowri Davies, Blwyddyn 9, o'r achlysur:

Yr wybodaeth gyntaf a gawsom ni yn blant ac athrawon Ysgol Plasmawr am y Walkathon oedd pan ddaeth Nigel Walker a Tanni Grey i ymweld â'r ysgol er mwyn ein hysbysu amdani. Roedd y daith wedi ei threfnu er mwyn codi arian i Sefydliad Prydeinig y Galon. Ar ôl yr ymweliad yma dangoswyd brwdfrydedd mawr ymysg holl blant yr ysgol, ac roedd pawb yn awyddus i gynrychioli'r ysgol ar y daith.

Ar fore 19 Medi, ymgasglodd pawb y tu allan i'r Deml Heddwch yng nghanol Caerdydd. Gan fod yna gynifer o gerddwyr, roedd awyrgylch cyffrous tu hwnt o gwmpas y Deml. Fe ymgasglais i gyda chriw ein hysgol ni ac fe gerddom i gyd gyda'n gilydd. Roedd dewis gan bawb naill ai i gerdded pedair neu wyth milltir !

Ar hyd y daith, cawsom gyfle i gymdeithasu â cherddwyr eraill ac ar ddiwedd yr holl gerdded, ymgasglodd pawb yn ôl yn y Deml Heddwch. Derbyniodd pawb grys -T a medal am gymryd rhan yn y Walkathon a chodi arian i Glefyd y Galon - dyna beth oedd ffordd hwylus a iachus o helpu pobl lai ffodus na ni !

**Lowri Davies**


## Taith Hanes i Wlad Belg

Ar 14 Gorffennaf, aeth y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 9 ar drip hanes i Wlad Belg. Pwrpas y daith oedd ymweld â bedd Hedd Wyn a theithio o gwmpas Ypres, gan gynnwys yr amgueddfa "In Flanders Field", sy'n llawn o drysorau, ffeithiau, arddangosfeydd a chofebion y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

Wedi teithio dros y sianel, cyraeddasom Calais a pharhau â'r siwrnai i Wlad Belg. Yno aethom i'r man y cafodd Hedd Wyn ei saethu ac i'r fynwent lle y cafodd ei gladdu. Roedd ei fedd ynghanol rhesi a rhesi o gerrig beddau gwynion di-enw.

Er mwyn dysgu mwy am y Rhyfel fe aethom i'r amgueddfa yn Ypres. Yno gwelwyd nifer o fideos, modelau, deiagramau er mwyn dod â'r Rhyfel yn fyw i ni. Yn fy marn i roedd yr amgueddfa yn gofeb ddiddorol ac yn brofiad emosiynol i'r disgyblion. Tra oeddem yn Ypres, aethom i weld y "Menin Gate", sef bwa ac enwau'r holl milwyr arno o bob cwr o'r byd a fu farw yn ystod y rhyfel. Fe wnaeth pawb fwynhau'r daith a braf oedd bod mewn lle yr oeddem wedi dysgu cymaint amdano. Rwy'n sicr bod pawb o'r farn fod y daith yn un fythgofiadwy.

**Lauren Goddard**



Disgyblion Blwyddyn 9 yn Ngwlad Belg

## Aerobics dros Lepra

Ar ddiwedd tymor fe ddaeth cynrychiolydd o'r elusen Lepra, sy'n gwella plant a phobl o'r gwahanglwyf, i'r ysgol. Adroddod hanes bachgen yn Affrica a gafodd ei wrthod gan ei deulu oherwydd ei fod yn dioddef o'r gwahanglwyf. Ar ôl clywed hanes y bachgen, ysgogwyd disgyblion Plasmawr i godi arian ar gyfer yr elusen er mwyn sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r clefyd yn derbyn y feddyginiaeth angenrheidiol. Cynhaliodd yr ysgol Aerobithon noddedig a chodwyd dros £1,700 ar gyfer yr elusen. Diolch i bawb am gyfrannu !

**Alex Clatworthy**

## Nantlais ar y brig !

Roedd mabolgampau cyntaf Ysgol Plasmawr yn llwyddiant mawr. Cynhaliwyd y diwrnod yn Stadiwm Lecwydd ac roedd y cystadlu'n frwd ac o safon uchel. Llys Nantlais oedd y buddugwyr cyntaf o dan arweiniad gwych Dr Nia Griffiths. Cafwyd sawl perfformiad ardderchog gyda'r canlynol yn bencampwyr yn eu blwyddyn :

Bl. 7 Gethin Thomas ac Amy Goodfellow
Bl. 8 Lee Bridgeman a Lowri Davies a Elin Stewart
Bl. 9 Craig Rattenbury a Gemma Winstone

Yn ogystal â hyn cafwyd dwy gystadleuaeth rynglysol lwyddiannus iawn - rownderi i'r merched gyda CRWYS yn fuddugol a Jenna Hortop Bl. 8 yn bencampwraig y gystadleuaeth, a chriced i'r bechgyn gyda NANTLAIS yn fuddugol ac Alun Roberts yn bencampwr.





## Criced

Llongyfarchiadau i aelodau tîm criced Bl.9 , a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth ailgynghrair Caerdydd a'r Fro. Er gwaethaf eu perfformiad da, colli a wnaethant mewn gêm agos i Ysgol Corpus Christi.

# YSGOL GLANTAF

## Byd islaw'r bont - 9, 10 a 11 Tachwedd 1999

Wel, mae cyfnod y sioeau wedi dod unwaith eto! – hwyl a sbri, a lot o waith! Mae perfformiad unigryw ac arbennig iawn gan Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar y gweill y tymor hwn; sioe sydd wedi ei chomisiynu a'i hysgrifennu yn arbennig ar gyfer disgyblion yr ysgol ar achlysur dathlu unfed pen-blwydd ar hugain yr ysgol. Odi! ma' hi'n mynd i fod yn un go sbesial! Y sgript gan Emyr Edwards, y gerddoriaeth gan Eirlys Gravelle, a'r cwbl yn troi o amgylch hynt a hanesion ein prifddinas dros y blynyddoedd. Mae yna olygfeydd yn y bae, stryd Bute, siop chips, caffi Sally... a chymeriadau heb eu hail! Fe gewch gwrdd â chymeriadau diddorol a lliwgar! Lissy Dew, puteiniaid y ddinas, a'r morwyr prysur! Digon at ddant pawb!

Mae'r ymarferion yn mynd rhagddynt yn dda a neb yn cael llawer o amser i gael cinio y dyddie hyn; ond yn amlwg mae'r 120 o blant sydd yn y cast, sy'n amrywio o Flwyddyn 8 i 13 yn mwynhau pob eiliad, ac mae'r cyd-dynnu a'r cyd-weithio yn amlwg!

Gobeithiwn yn fawr y medrwch ymuno â ni yn hwyl y sioe. Archebwch eich tocynnau yn gynnar. Mae'n bosib eu cael drwy law'r ysgrifenyddion yn yr ysgol. Nodwch y dyddiadau, ac edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Tachwedd!

**Delyth Medi**

## Traws Gwlad 1999

Ddydd Iau, 16 Medi, cynhaliwyd Gŵyl Traws Gwlad Ysgol Glantaf. Roedd yr ŵyl yn gyfle i'r pedwar llys gystadlu yn erbyn ei gilydd drwy redeg ras traws gwlad ar lannau afon Taf. Cynhaliwyd rasys gwahanol i ddisgyblion o bob blwyddyn, i fechgyn ac i ferched. Fe fentrodd 15 o athrawon redeg y cwrs gyda'r disgyblion, gydag ambell athro yn rhedeg fwy nag un ras. Roedd yr holl athrawon eraill yn stiwardio drwy ddechrau'r rasys, amseru, a bod ar ddyletswydd ar y cwrs. Cafwyd cymorth tua chant o'r chweched i stiwardio hefyd.

Llwyddodd dros 800 o ddisgyblion i gwblhau'r ras gydag Alun Bonello o Flwyddyn 12 o lys Illtud yn llwyddo i redeg y ras gyda'r amser cyflymaf o ychydig dros 12 munud. Dyma'r buddugwyr eraill: Merched Bl.11,12,13 - Siân Harries, Illtud; Bechgyn Bl.10 - Huw Tyler, Illtud; Merched Bl.10 - Elinor East, Dewi; Bechgyn Bl.9 - Jamie Bradbury, Dyfrig; Merched Bl.9 - Nadia Turner, Dyfrig; Bechgyn Bl.8 - Jamie Roberts,Teilo; Merched Bl.8 - Lucy Watkins, Dewi; Bechgyn Bl.7 - Gareth Norman, Teilo; Merched Bl.7 - Emily Hosang, Teilo.

Ar ddiwedd y dydd, roedd y pwyntiau'n agos iawn, ond yn y pen draw, Illtud a orfu, gyda Dyfrig yn ail, Dewi yn drydydd a Theilo yn bedwerydd.

Roedd y diwrnod yn ddechreuad bywiog a llwyddiannus i weithgareddau'r llysoedd am y flwyddyn. Cafodd yr holl ysgol y cyfle i ddod ynghyd a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Edrychwn ymlaen yn awr at weithgaredd nesaf y llysoedd.

**Meleri Wyn Jones**

## Athrawon yn ymadael

Gadawodd Catrin Wyn yr Adran Gymraeg, a chymryd swydd newydd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Dymunwn yn dda iddi yn ei phriodas y mis hwn. Ymddeolodd y canlynol ddiwedd Awst. Braint cofnodi'n gwerthfawrogiad o'u cynhesrwydd ac o'u hymroddiad llwyr i genedlaethau o ddisgyblion Glantaf. Dymunwn iechyd da ac ymddeoliad hir a hapus i bob un ohonynt, rhai wedi bod ar staff yr ysgol bron o'r cychwyn cyntaf, ugain mlynedd yn ôl, ac yn gyfrifol gydag eraill am sefydlu enw da Ysgol Glantaf. Mae ein dyled yn fawr iddynt i gyd: Marian Wynne (Dirprwy Brifathrawes); Iris Williams (Dirprwy Brifathrawes); Dilys Bradley (Pennaeth y Chweched); Heulwen Cooper (Pennaeth Gyrfâu); Dianne Bartholomew (Gwyddoniaeth); Mona Jones (Mathemateg); Angela Evans (Almaeneg); Anne Rees (Gweinyddwraig); Gloria Gamble (Technegwraig).

**Huw Thomas**

## Taith seiclo

Yn ddiweddar cynhaliwyd taith seiclo noddedig blynyddol Glantaf. Pwrpas y daith oedd codi arian tuag at elusen yr ysgol, sef Llid yr Ymennydd. Does dim angen eglurhad dros ddewis yr elusen hon gan fod cymaint o sôn yn ddiweddar am yr afiechyd ofnadwy yma, yn enwedig yn ne Cymru.

Aeth y seiclwyr i Barc Ynys Angharad ac yn ôl gan fynd ar hyd Lôn Afon Taf, pellter o ryw 25 milltir. Llwyddodd y 33 disgybl o Flynyddoedd 7 ac 8 i godi'r swm ardderchog o £1134. Cododd un bachgen, Alun Johnson, £102 ei hun. Ardderchog wir! Ar ddiwedd y dydd roedd pawb yn gytûn nad ofer fu'r gwaed, y chwys a'r tyllau yn yr olwynion!

**Vanesa Priestley**

**D.S.** Yn ystod y flwyddyn llwyddodd yr ysgol i godi dros £3000 tuag at elusen Llid yr Ymennydd.

## Arholiadau Allanol

**Lefel A** - Canlyniadau eleni oedd y gorau yn hanes yr ysgol. Dylid canmol yr holl athrawon a'r myfyrwyr am eu gwaith caled a'u llwyddiant ysgubol. Roedd 13 wedi ennill 3 gradd A neu fwy a chanran y graddau A wedi codi 10%.

**TGAU** - Roedd y canlyniadau eto yn arbennig o dda a chafodd 52 disgybl 5 A* neu well.

**TAC** - Cafwyd llwyddiant ysgubol yma a nodwyd bod hynny yn profi nad yw Glantaf yn anwybyddu'r llai galluog. Mae lle i arholiad o'r fath yma hefyd.

**GNVQ** - Gwelwyd llwyddiant yma hefyd sydd yn profi gwerth yr arholiad.


## Blaenrybuddion

- Cynhelir Ffair Gaeaf Glantaf ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr.
- Bydd gwasanaeth Naw Llith a Charol Glantaf yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais am 7.30pm nos Iau, 16 Rhagfyr.



# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Y Wefr Fwyaf



Anodd onid peryglus yw ysgrifennu am unrhyw chwarae ar ganol y gystadleuaeth; mi fyddwn ni wedi gweld tair gornest Cymru yn y Rownd Ragbrofol (Pŵl D) erbyn i chi ddarllen hyn - efallai y gallwn fod wedi mentro cynnwys rhagolwg ar yr ornest fawr yn erbyn Awstralia ond ymataliais, rhag ofn y byddai wedi ei chwarae. Beth bynnag, bydd darllenwyr *Yr Herald* yn y Gogledd wedi darllen fy mhroffwydoliaeth eisoes, a man a man i ddarllenwyr *Y Dinesydd* ei darllen hefyd: Cymru yn y Rownd Olaf yn erbyn Seland Newydd, 6 Tachwedd - dyna hi! Ffwlbri, meddech chi, hollol afresymegol - y galon yn rheoli synnwyr cyffredin. Cawn weld.

Mae hi'n rhyfedd sut y mae barn pobl yn amrywio. Ychydig sy'n cytuno gant y cant ag unrhyw un arall parthed safon gornest, er enghraifft - dyma farn dau gyn-faswr o fri, y ddau Davies, Jonathan a Gareth, a gafodd eu haddysg yn yr un ysgol, sef Ysgol y Gwendraeth. Chwaraeodd Jonathan 32 gornest dros y wlad rhwng 1985 a 1997, a Gareth 21 o weithiau rhwng 1978 a 1985, ac yr oedd y ddau'n ysgrifennu yn y papur Sul Saesneg, *The Independent,* ar 19 Medi. Pennawd erthygl Jonathan oedd, "Mae'r Goreuon yn Gorffwys, Canolig yw'r Gweddill", gan gyfeirio at y prif glybiau'n gorfod chwarae heb y chwaraewyr oedd yn y garfan genedlaethol. Geiriau'r Golygydd, debyg, oedd y geiriau uwchben yr erthygl, ond yr oeddynt yn grynodeb o'r hyn yr oedd y cyn-faswr wedi ei ysgrifennu. Roedd ei frawddeg gyntaf yn ddadlennol: "Dechreuodd y tymor rygbi mewn ffordd siomedig iawn." Gwelsai nifer o ornestau ar y teledu (ni wn a welsai rai'n fyw ai peidio) ac fe fu'n syn ganddo weld cynifer o gamgymeriadau. Er bod proffesiynoldeb wedi codi safon nwyfiant y chwaraewyr - yn ddiau - nid oedd safon y medrau mor uchel ag a fu. Defnyddiodd ef ystadegau hyfforddwr Caerdydd, Lyn Howells, yng ngornest ei glwb yn erbyn Casnewydd - un gwall ar bymtheg di-angen. Echrydus, meddai Jonathan: mae hi'n amlwg bod colli'r chwaraewyr gorau'n golygu iselhau'r safon, ond nid i'r graddau hynny, ac nid digon yw aros hyd nes y bydd Cwpan y Byd ar ben ychwaith. Rhaid i'r clybiau ystyried beth sy'n digwydd yn awr a mynnu safon uwch, meddai.

Geiriau cryf iawn, ond gadewch inni weld beth oedd gan y cyn-faswr arall i'w ddweud ar y dudalen gyferbyn. Adroddiad ar yr ornest yng Nghasnewydd oedd ganddo pan orfu Pontypridd o 33 phwynt yn erbyn 28; fel hyn agorwyd ei adroddiad: "Mae tîm Cymru wedi arwain y ffordd wrth adfer balchder ac angerdd i'r gêm genedlaethol, ond i gynnal y llwyddiant a meithrin diddordeb, rhaid cael adeiladwaith bywiog a chystadleuol ymhlith y clybiau. Ar dystiolaeth yr ornest hon mae hi'n argoelio'n dda." Aeth yn ei flaen i ganmol Pontypridd am sicrhau meddiant, *a'i gadw*, ac yr oedd hynny a medrau llyfn eu maswr, Lee Jarvis, yn sicrhau buddugoliaeth nodedig a chyffrous i'r clwb. Er bod Pontypridd wedi colli Neil Jenkins a chwaraewyr allweddol eraill (Dafydd James a Kevin Morgan yn eu plith) ni chollasant eu hysbryd a'u taerineb i frwydro. Yn ei baragraff olaf darllenais y geiriau hyn: "Mae rygbi yn ei ôl, yn uchel ar agenda'r wlad.... bydd chwaraewyr megis Jarvis, Teichmann (cyn-wythwr De Affrica) a Mathew Watkins (canolwr disglair Casnewydd) *yn sicrhau ei fod yn werth ei weld.*"

Rhaid i Davies arall, nid mor enwog, gytuno â barn Gareth - yn bendant! Wedi gwylio pedair gornest, yr oeddwn i'n fodlon iawn ar y safon, ac eithrio'r ornest ym Mhen-y-bont lle'r oedd Abertawe'n chwarae. Un wael oedd honno. Gwelais ddau asgellwr Castell-nedd, Delme a Shane Williams, yn ein cyffroi â'u rhedeg cyfareddol - yn enwedig yr ieuaf, Shane - a maswr yr un clwb, Cerith Rees, yn profi na fydd bwlch pan orffen Neil Jenkins. Dylid meithrin hwn yn ofalus dros ben - mae hwn wedi ei lunio yn yr un ffatri honno â Barry John, ac ni allaf feddwl am unrhyw ffordd well o ganmol medrau maswr na hon. Rhaid sôn am Mathew Watkins (Casnewydd), canolwr ifanc hynod o alluog, ac Ian Gough, clo Pontypridd, sy'n disgleirio ym mhob agwedd o'r chwarae. Yn bendant, llachar yw'r dyfodol - ond - rhaid i'r wlad gael cryn dipyn o lwyddiant yng Nghwpan y Byd i sicrhau safon y dyfodol. Ac fe gaiff.

## Pêl-droed



Ar ôl i Wimbledon drechu Caerdydd yn ail rownd Cwpan Worthington, fe gyhoeddodd Egie Olsen (rheolwr Wimbledon) fod tîm "mawr, cyhyrog Caerdydd" wedi peri cryn broblem i Wimbledon. Y gwirionedd yw nad yw Caerdydd yn dîm mawr - i'r gwrthwyneb - braidd yn ysgafn yw'r tîm o'i gymharu â thimau Millwall, Wrecsam a Notts County: ond mae cryn allu o fewn y tîm er hynny.

Afresymol yw disgwyl i Gaerdydd ddyrchafu yr ail dymor o'r bron. Mae Frank Burrows wedi cyhoeddi yn fwy nag unwaith mai'r nod yw cadarnhau ei safle yn yr ail adran eleni cyn mentro dyrchafu y tymor nesaf. Ar ôl chwarae saith gêm cynghrair mae'r arwyddion yn addawol a dylai'r tîm o leia sicrhau safle gweddol gyfforddus yn yr adran. Mae'n wir mai dwy fuddugoliaeth yn unig a gafwyd, ond bu tair gêm gyfartal a gallasai Caerdydd fod wedi eu hennill. Hyd yn hyn collwyd ond dwy.

Sail pob tîm llwyddiannus yw amddiffyn cadarn er atal y gwrthwynebwyr rhag sgorio. Yn hyn o beth mae 'na bryder i Gaerdydd oherwydd ildiwyd goliau ym mhob gêm hyd yn hyn. Mae dyfodiad dau ganolwr newydd, sef Russel Perret a Tony Vaughan (ar fenthyg o Ddinas Manceinion), yn sicr o gadarnhau a chyflymu amddiffyn a fu braidd yn araf a thwmpathog ar adegau.

Mae digon o ddewis ganol cae bellach - Willie Bolland yn chwaraewr gwych a Danny Hill yn greadigol a chyfforddus wrth drin y bêl - ac mae'r gystadleuaeth yn frwd. Mae'n ymddangos hefyd y byddai cadw John Cornforth am y tymor yn lles (ar hyn o bryd cytundeb deufis sy ganddo).

Mae'r angen yn parhau am sgoriwr naturiol i'r blaenwyr. Mae Kevin Nugent yn fedrus wrth arwain y llinell flaen - a Jason Bowen yn fywiog a chyflym wrth ei ochr - ond nid sgoriwr naturiol mohono a buasai dipyn mwy cyfforddus yn chwarae'n llydan. Efallai y daw Jamie Hughes i'r adwy maes o law - mae ef yn sgoriwr naturiol - ond mae 'na fyd o wahaniaeth rhwng Cynghrair Cymru lle bu'n sgorio'n rhugl ac Ail Adran Cynghrair Lloegr.

Seren y tîm hyd yn hyn? Heb amheuaeth Andrew Legg - yn gyflym, galluog ac ymdrech cant y cant ymhob gêm. Mae'n esiampl i bawb.

**Howard Spriggs**

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Ysgol Bro Eirwg

Yn ystod tymor yr Hydref 1998 fe gafodd disgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i ddysgu a datblygu sgiliau rygbi'r gynghrair dan hyfforddiant swyddog datblygu Caerdydd, Richard Hodges. Ar ôl chwe wythnos o hyfforddiant ffurfiwyd tîm i gystadlu yng nghystadleuaeth 'Little League' Caerdydd. Trefnwyd y gystadleuaeth dros gyfnod o bum wythnos yn ystod misoedd Mai a Mehefin ar gae'r stadiwm athletau yn Lecwydd.

Cafodd tîm yr ysgol, a oedd yn cynnwys bechgyn a merched, lwyddiant mawr gan ennill 14 gêm a cholli ond un. Yn ogystal, dewiswyd tri o'r tîm, Jack Davies, Owen Poole a Joseph Price i gynrychioli tîm Cymru mewn twrnament rhyngwladol yn Warrington dros y Pasg. Yno buont yn chwarae yn erbyn timau o Loegr, Yr Alban ac Iwerddon.



Owen Poole, Jack Davies a Joseph Price.

### Prosiect Eco

Daeth tymor llwyddiannus yn Ysgol Bro Eirwg i ben ag anrhydedd y Faner Werdd Ewropeaidd pan ddyfarnwyd yr ysgol yn Ysgol Eco.

Y mae prosiect Eco yn argymell plant i feddwl am eu hamgylchfyd ac felly'r plant, yn bennaf, ynghyd ag ychydig o gymorth oddi wrth y gofalwr, Idris Burgess, athrawes, Gwyneth Micah, a rhiant, Debbie Grey, sy'n cynllunio a gwneud penderfyniadau. Canmolwyd y plant gan Mr Gerry Taylor, y Swyddog Eco, am y gwyrddni amlwg o gwmpas yr ysgol a ddaeth yn sgil prosiectau fel datblygu'r ardd a'i hardal wlyb, plannu bylbiau, ail-gylchu sbwriel a theiars, gwneud compost a phlannu coed bach ffrwythau meddal gan obeithio gwneud jam yn yr hydref.

Fe welir Cod Eco Bro Eirwg wedi ei arddangos o gwmpas yr ysgol ac astudiwyd Agenda 21 a arwyddwyd gan wledydd yn addewid i wneud mwy o ymdrech i warchod eu hamgylchfyd.

Ysgol Bro Eirwg yw'r ail ysgol yng Nghaerdydd i ennill y wobr hon ac rydym yn falch i fod yn un o'r bedair ar ddeg o ysgolion llwyddiannus yng Nghymru.

### Llwybr Amser

Uchafbwynt arall y tymor fu ein sioe Llwybr Amser yng nghanolfan Howardian pan aeth ein mascot ni, Harri Eirwg, â chriw o blant Bro Eirwg ar hyd Llwybr Amser gyda chymorth y Tardis. Fe roddodd Harri flas iddynt (gyda chymorth cast o 350 o blant) o sut medrodd y Cymry, o wahanol gyfnodau yn ein hanes, oresgyn problemau a chreulondeb trwy ddewrder, aberth a gweledigaeth. Cawsom weld ymateb plant heddiw i'r digwyddiadau hyn wrth iddynt sylweddoli na fydden nhw lle maen nhw heddiw oni bai am ddylanwad eu cyndeidiau.

Cafwyd tipyn o wefr hefyd wrth i Ysgol Bro Eirwg ennill y bencampwriaeth pêl-droed a rownderi i ysgolion cynradd yn ffair Glantaf. Bu plant Blwyddyn 6, wrth gwrs, yn amlwg ym mhob llwyddiant. Diolchwn iddynt am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad a dymunwn yn dda iddynt yng Nglantaf.

## Ysgol Sant Baruc, Y Barri

Yn ystod gwasanaeth olaf yr haf cynhaliwyd seremoni gwobrwyo blynyddol yr ysgol i ddiolch i'r plant, y staff a'r rhieni am eu gwaith caled a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Derbyniodd 21 o blant Blwyddyn 3 a 4 dystysgrif yn nodi eu llwyddiant yng Nghynllun Partneriaeth Darllen yr ysgol. Bu'r plant yn darllen gydag oedolyn am hanner awr ddwywaith yr wythnos am gyfnod o ddeg wythnos.

Cafodd Giorgia Wakeham ac Amy Jones wobr a thystysgrif am eu caredigrwydd a'u gofal dros eraill yn ystod y flwyddyn. Gwobrwywyd Sam Norman, Daniel Alsop a Natalie John am ymddygiad ardderchog trwy gydol y flwyddyn a derbyniodd Olivia Pritchard, Ashley Bevan a Bethan Haf March dystysgrif a gwobr am frwdrydedd ac agwedd at waith dros y flwyddyn a aeth heibio.

Llwyddodd deg o'r disgyblion i fynychu'r ysgol bob dydd yn ystod y tri thymor: David Roberts, Jason Bull, Aimee Roberts, Stephanie Weaver, Bethany Pile, Bethan Haf March, Chelsea Rees, Zoe Jones, Sara Woodfield a Matthew Griffiths. Derbyniodd 57 o blant dystysgrif am fynychu'r ysgol bob dydd yn nhymor yr haf.

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd siec am £725 i Mr Carl Palmer a Henri Arth a gasglwyd tuag at Ofal Canser Marie Curie.



## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

### Danteithion bocs Pandora

Roedd stafell lawr llawr Clwb Ifor Bach yn llawn merched ddydd Llun 6 Medi. Gwelais i ddyn neu ddau yn edrych braidd yn lletchwith yng nghanol yr holl wynebau benywaidd, ond roedd hon yn noson i'r menywod: roedd Pandora ar daith. Mae'r bechgyn wedi bod wrthi ers tro, yn teithio o gwmpas y wlad gyda sioe gerdd a chân, ac wedi cael cryn lwyddiant. Mae wedi dod yn eitha' cyffredin i weld pobl fel Myrddin ap Dafydd neu Ifor ap Glyn yn ein diddanu yn nhafarndai'r wlad, ond dyna daith gynta'r merched. Fflur Dafydd, Lowri Davies Lisa Tiplady a Mari Stevens yw "Pandora", ac roedd ganddynt focs llawn o bethau da, a thalp mawr o hiwmor hefyd. Roedd y cynnwys yn amrywio o ffeministiaeth i wleidyddiaeth i drychinebau'n byd, ac yn ôl yn ddi-ffael at y rhyw deg a'r rhyw annheg. Ychwanegodd talentau cerddorol Fflur Dafydd yn fawr iawn at lwyddiant y sioe - rhaid i Caryl Parry Jones wylio - ac er iddyn nhw honni, yng nghân fwya' bywiog y noson, eu bod nhw "isho dyn", wnaethon nhw'n iawn ar eu pennau eu hunain, yn fy marn i!

Mae'n gallu bod yn anodd i ddysgwyr Cymraeg werthfawrogi barddoniaeth, ond efallai mai dyna'r lle i ddechrau. Fflur Dafydd oedd enillydd Medal Rhyddiaith Eisteddfod yr Urdd eleni, ac mae'r gyfrol o'i gwaith, *Y Gwir am Gelwydd* (sy'n cynnwys cerddi a straeon byrion) ar werth ac yn wych. Llyfr barddoniaeth arall sy'n werth ei ddarllen yw *Bol a Chyfri' Banc*, cyfrol taith y bechgyn, sef Myrddin ap Dafydd, Iwan Llwyd ac Ifor ap Glyn. Aethon nhw ar daith gyda'r cerddi, sy'n barnu materoliaeth byd y Gorllewin, tua phum mlynedd yn ôl. Mae'r cerddi yn apelio, maen nhw'n hawdd eu deall, ond maen nhw'n cyfleu neges sy'n werth ei chlywed.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| lletchwith - awkward | y cynnwys - the contents |
| benywaidd - female | gwleidyddiaeth - politics |
| cryn lwyddiant - a fair bit of success | trychinebau - disasters |
| diddanu - entertain | y rhyw deg - the fair sex |
| talp - dollop | honni - claim |
| amrywio - vary | gwerthfawrogi - appreciate |
| | enillydd - winner |
| | cyfrol - volume |

### Digwyddiadau CYD

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00
Am fanylion pellach, ffoniwch Padi Phillips - 01222 312293

## WILLIAM MORGAN ( MOC ) ROGERS

Gyda thristwch mawr, daeth y newydd am farwolaeth Moc fore Llun, 26 Gorffennaf 1999. Yr oedd Moc yn fawr ei barch ac yn meddu ar lu o gyfeillion a ddenodd ato ei hun dros y blynyddoedd. Prawf o'r meddwl uchel ohono oedd y dyrfa luosog a ddaeth i Salem, Treganna y prynhawn Gwener canlynol mewn cyfarfod o ddiolchgarwch ac addoliad am ei fywyd a'i waith.

Coffawyd yn dyner iawn am y gŵr hynaws ac amryddawn hwn a gyfranodd gymaint fel athro, cyfieithydd, llenor ac awdur a sgwrsiwr heb ei ail. Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn ag Eleri, Owain ac Angharad yn eu colled enfawr o briod a thad arbennig iawn. Yr oedd y gwasanaeth o dan ofal y Parch. Evan Morgan, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion Cynwil Williams, George Ladd a D. Haydn Thomas. Talwyd teyrnged deilwng iawn i Moc gan ei gyfaill mynwesol o ddyddiau coleg, yr Athro Hywel Teifi Edwards. Yn ei ffordd ddihafal a ffraeth, cydiodd mewn amryw o deithi a oedd yn eiddo i Moc, gan roi i'r gwrandawyr ddarlun cyflawn a hyfryd o'r gŵr mwyn o Ffair Rhos.

Er iddo ymsefydlu gyda'i deulu yng Nghaerdydd dros bum mlynedd ar hugain yn ôl a dod i fwynhau bywyd y brifddinas, roedd Ffair Rhos yn rhan annatod o'i fywyd. Enciliai yno ar brydiau o ganol pysurdeb y ddinas i dawelwch y moelydd unig a drachtio yn ddwfn o brydferthwch ac awelon academi awyr-agored y wlad tra'n aros yn ei hen gartref yn Llwyn-llwyd.

Wedi graddio yn y Gymraeg yn Aberystwyth, treuliodd ryw wyth mlynedd yn athro Cymraeg yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yna gwelwyd ef yn agor cwys newydd pan apwyntiwyd ef yn Gyfieithydd yn y Swyddfa Gymreig, yr unig gyfieithydd am gyfnod, cyn creu tîm o dan ei arweiniad ymhellach ymlaen. Bu yn y swydd honno am 18 mlynedd cyn ymddeol yn gynnar.

Gŵyr pawb pa mor ddewr ydoedd wrth wynebu ei afiechyd creulon. Roedd cryfder ei gymeriad a'i ddewrder yn wers i ni i gyd. Parhaodd yn ei huodledd wrth sgwrsio yn ei wely, a pha destun bynnag a fyddai'n codi, cydiai ynddo, fel arfer, a'i droi yn sgwrs diddorol ac ystyrlon.

Ffrwyth ei feddwl craff a'i ddawn i ysgrifennu a barodd iddo wneud enw iddo ei hun i lawer cyfeiriad. Gadawodd i ni, ar gof a chadw, bortreadau, sgyrsiau, anecdotau ac ysgrifau, ynghyd â chasgliad o ddyfyniadau. Enillodd Goron Eisteddfod Powys ddwywaith a hefyd Gôron Eisteddfod Pantyfedwen. Ymhlith y llyfrau a ysgrifennodd yr oedd *Helyntion Jac y Gofalwr* ar gyfer dysgwyr, llyfr am wyddonwyr enwog a *Camp ar Gamp* ar chwaraeon. Rhyfedd yw meddwl fod y gŵr addfwyn yma, na chododd ei ddwrn ar neb ac yr oedd gas ganddo ymladd, yn ymddiddori mewn bocsio, ond fel y dywedodd Hywel Teifi, nid oedd yn meddu diddordeb yn gymaint yn y bocsio ond yn y bocsiwr. Yn sicr, roedd ganddo ddiddordeb mewn pobl a'u hynt a'u helynt. Cyfieithodd ddwy nofel ynghyd â chyfrannu erthyglau i bapurau a chyfnodolion Cymraeg. Bu hefyd, o dan ffugenw, yn feirniad ar deledu Cymraeg yn *Y Cymro*.

Wedi dweud hyn oll amdano mae'n sicr na ddywedwyd y cyfan am y bersonoliaeth hyfryd yma. Bydd y cyfrinachau a'r atgofion preifat sydd gan y teulu am Moc yn gysur ac yn ddiddanwch iddynt yn eu hiraeth. Roedd hi'n fraint cael ei adnabod a melys fydd yr atgofion amdano. Claddwyd ei lwch ym mynwent Abaty Ystrad Fflur bnawn Llun, 9 Awst 1999.

**D. Haydn Thomas**

# Cymanfa Ganu ar thema 'Heddwch'

yn

## Eglwys y Crwys

**Heol Richmond, Caerdydd**

**ar brynhawn Sul, 7fed o Dachwedd, 1999**
**am 2.30**

*Arweinydd* :: Robert Nicholls

*Organydd* :: Dr. Dewi M. Lewis

Côr Plant Ysgol Gynradd Pencae

*Mynediad am ddim ond fe wneir casgliad tuag at elusen y Groes Goch*


**TRYDANWR**

**gyda dros**
**20 mlynedd o brofiad**

Ailweirio, gosod systemau larwm
a chawodydd.

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar
**01222 868208**
neu **0468 973229**

**REES WOOD**
**a TERRY**

A ydych chi wedi cael
**damwain?**

Efallai y gallwch hawlio
**iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf
**yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222